YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

TACHWEDD, 1871.

YSTYR Y GAIR IAWN NEU CYMMOD YN YR YSGRYTHYRAU.

GAN nad beth yw y gwahanol gyfundraethau sydd wedi cael eu cynllunio o bryd i bryd y'nghylch yr Iawn, ni a gynygwn yn yr erthygl hwn ddangos y'mha ystyr y mae yn cael ei ddefnyddio yn yr Ysgrythyrau. Pe y cymerasai duwinyddion Cristionogol eu harwain yn fwy gan yr Ysgrythyrau na chan eu dychymygion eu hunain, buasai yn well ar les y Grefydd Gristionogol, oblegid y mae pob cyfundraeth ar a wyddom ni am dani, naill ai yn edliwio ar gymeriad Duw fel Bod trugarog a maddeugar, neu yn tueddu i anog pechod trwy arwain dynion i dybied fod Crist wedi dioddef y gosp drostynt. Nid ydyw "byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd," fel y dywed yr Apostol Paul, ddim o gymmaint pwys y'ngolwg llawer, âg yw "ein cael ynddo ef heb ein cyfiawnder ein hunain," gan gamddeall meddwl yr un Apostol. Yr ydym yn tybied nas gall dim fod yn fwy niweidiol na hyn i fuchedd dduwiol a dylanwad Efengyl Crist.

Y gair Hebraeg am IAWN yw *Kopher*. Mae yn cael ei ddefnyddio fel enw a berf dros gant ac ugain o weithiau yn yr Hen Destament, ac yn cael ei gyfieithu hefyd *cymmod* a *cymmodi*. Y gair Groeg cyfer-byniol iddo yn y Testament Newydd yw *hilasmos* ac yn cael ei ddefnyddio ddwywaith gan Ioan yn ei Epistol cyntaf, sef ii. 2, lle y dywed yr Apostol, "Ac efe (Crist) yw yr *iawn* dros ein pechodau ni," ac yn Pen. iv. 10, "Am iddo ef ddanfon ei Fab i fod yn *iawn* dros ein pechodau." Mae gair hefyd o'r un tarddiad *(hilasterion)*, ond rywbeth yn wahanol mewn ystyr, yn cael ei ddefnyddio gan yr Apostol Paul yn

ei Epistol at y Rhufeiniaid, iii. 35, lle y darllenwn, "Yr hwn (Crist) a osododd Duw yn *iawn* trwy ffydd yn ei waed ef."

Ystyr cyntefig y gair *kopher* yn yr Hen Destament yw gorchudd, neu ryw beth i *gyfro* trosedd neu niwed a wnaethpwyd i ryw un. Yr oedd hyn, sef gorchuddio trosedd neu niwed, yn cael ei gyflawni weithiau trwy dalu swm o arian, neu ryw beth oedd yn gyfartal i'r trosedd neu'r niwed. Gelwid yr hyn a dalid yn *iawn* i'r sawl oedd wedi cael eu niweidio. Dyma beth oedd y *kopher*. Yn Exodus xxi. 30, dywedir, "Os iawn *(kopher)* a roddi arno, rhodded werth am ei einioes, yn ol yr hyn oll a osoder arno," hyny yw, "Os, yn lle gosod perchenog yr ych i farwolaeth, y cytunir iddo dalu arian, neu i wneuthur *kopher* am y trosedd, bydded iddo dalu y swm a ystyrir yn gyfiawn." Wedi gwneuthur iawn, neu *kopher*, y canlyniad oedd heddwch rhwng y sawl a niweidiwyd a'r hwn fu yn achos o'r niwed. Mewn geiriau eraill yr oedd *cymmod* yn cymeryd lle rhyngddynt.

Yn awr, dylem sylwi mai oddiwrth y cwstwm hyn y tarddodd ystyr grefyddol y gair, sef *cyfro drosodd* bechodau trwy wneuthur *kopher* am danynt. Ystyrid Duw fel y parti niweidiedig, ac am hyny ei fod wedi digio wrth ei bobl. Yr oedd Efe a hwynt yn cael eu hystyried mewn cyflwr o annghymmod. Yn gymmaint ag i fod y byd y pryd hwnw, mewn perthynas i grefydd, mewn cyflwr plentynaidd, meddylid, os oedd yn rhaid gwneyd *kopher* i gymmodi dynion â'u gilydd, fod yn rhaid hefyd gwneyd yr un peth i'w cymmodi â Duw—yr oedd yn rhaid talu iawn iddo am eu troseddau. Rhyw offrwm fynychaf oedd y *kopher*, megys hwrdd, neu ryw greadur glan arall. Weithiau yr oedd swm o arian, neu feddianau eraill, yn cael ei wneyd tuag at gynal gwasanaeth crefyddol yn y deml. Wedi gwneuthur yr offrwm, neu yr hedd-aberth, ystyrid fod Duw weithian wedi cael ei foddio—fod ei lid wedi ei symud ymaith—mewn gair, fod cymmod wedi cael ei wneuthur.

Myntumia rhai mai am droseddau seremoniol yn unig, ac nid am bechodau moesol, yr oedd y *kopher* yn cael ei wneuthur; ond meddwl ydym ni nad oes digon o sail i'r syniad hwn. Ymddengys i ni nad oes nemawr o wahaniaeth yn cael ei wneuthur rhwng esgeulusdod seremoniol a throseddau moesol, os dim. Tueddir ni, gan hyny, i feddwl, neu i gredu, fod y *kopher* yn cael ei ystyried yn gymmod am bob math o bechod neu drosedd yn erbyn Duw, ac i fod y dyb gyffredinol hon wedi achosi llawer o lygredd crefyddol, yr hwn a gondemnir mor fynych gan y prophwydi. Yr oedd y cwstwm—y llygredd o hono—yn arwain dynion anwybodus a phlentynaidd mewn pethau crefyddol, i dybied nad oedd dim canlyniadau drwg i bechod, ond iddynt hwy ofalu gwneuthur *kopher*. neu gyflawni eu seremoniau crefyddol. Gyda golwg ar hyn mai y prophwyd yn gofyn, "Beth yw lliosowgrwydd eich aberthau i mi, medd yr Arglwydd?.....Pwy a geisiodd hyn ar eich llaw? Bwriwch ymaith ddrygioni eich gweithredoedd oddi ger bron fy llygaid; peidiwch a gwneuthur drwg."

Cymmodol yw sylwedd y rhan amlaf o'r seremoniau Iuddewig. Eu dyben yn benaf yw gwneuthur *kopher* am droseddau y bobl. Maent

[Nid ydym yn atebol am syniadau ein gohebwyr, ond y mae rhyddid yn yr YMOFYNYDD i bob barn gael ei llafar.—GOL.]

BIBIOLATRY, NEU LYFR-ADDOLIAETH.

"PEN congl faen ein hadeilad ydyw—y Goleuni Tumewn, fel rhodd Duw er iechydwriaeth dyn. Hyn yw Emanuel, neu Dduw oddimewn, ac nid yw hwn yn caniatau i lyfr na barnwr ddyfod i mewn, rhwng llais Duw yn enaid dyn, fel rheol barn ac ymarferiad."—PENN.

"Rhaid cyfarfod hawl a gofynion rheswm mewn trefn i foddloni creadur resymol. Os oes un llyfr yn yr holl fyd yn cyfarch rheswm dyn, y llyfr hwnw ydyw y Beibl. Ysgrifenwyd ef gan ddynion, y mae yn cyfarch dynion, ac y mae wedi ei amcanu i ddynion."—MOSES STUART.

"Syniadau gwreiddiol dynion, mewn perthynas i anrhydedd a dianrhydedd, da a drwg, ydynt o'r pwys mwyaf. Llais Duw ei hun ydynt yn yr enaid. Arnynt hwy y mae golygiadau iawn am Dduw yn sefyll. Arnynt hwy, megys sail, rhaid i lywodraeth gyffredinol a thrag'wyddol orphwys am byth. Pe gallech ysgwyd hwynt, chwi a symudech seiliau ei deyrnas; canys cyfiawnder a barn ydynt drigle ei orsedd."—BEECHER.

"Paham, o honoch chwi eich hunain, nad ydych yn barnu yr hyn sydd gyfiawn?"—Luc xii. 57.

Beth yw sylfaen isaf awdurdod? Yr Eglwys, medd rhai; ein Cyffes Ffydd, medd eraill; ein Beibl, medd eraill; ein Rheswm a'n Cydwybod, medd rhyw rai, fel y mae'r rheswm a'r gydwybod yn datguddio, yn awr, ddeddfau Duw i ni. Cwestiwn caled i'w benderfynu ydyw, ac y mae hanes mwyaf trist y byd wedi troi arno. Fel enghraifft, y mae dynion wedi cael eu lladd am fod yn Brotestaniaid yn lle yn Babyddion; hyny yw, am ateb y cwestiwn mewn un ffordd. Yn Sweden y mae pedair gwraig wedi eu carcharu am droi yn Babyddion, yn lle aros yn Brotestaniaid; hyny yw, am ateb y cwestiwn mewn ffordd arall. Y mae dynion wedi cael eu lladd am broffesu bron bob credo, ac eraill wedi eu lladd am wadu pob credo: lladd am brisio'r Beibl yn ormodol, a lladd am eu brisio'n rhy isel: y mae mor galed brofi haeddiannau sectau drwy ferthyrdodau, ag mewn unrhyw ffordd arall; mor galed ddywedyd gan ba sect y mae y nifer mwyaf o ferthyron, ag yw dywedyd gan ba un y mae mwyaf o resymau. Yr ydym gyda'r canolbwynt yn awr. Y mae pob enwad yn ngwledydd cred yn proffesu gorphwys ar y Beibl. Hyd yn nod yr eglwys Babaidd, yr hon yw'r henaf, yr odidocaf, y fwyaf cyson o sectau, y mae hi yn pwyso ei hanffaeledigrwydd ar y Beibl. Nis gall yr holl enwadau, fe allai, brofi eu hathrawiaethau oddiwrth y Beibl, ond, yn gyffredin, nad ydynt yn cymeryd eu profi oddiwrth ddim byd arall. "At y gyfraith ac at y dystiolaeth," ddywedant oll, sef y Pabydd sefydlog, eon, cyson; a'r Undodiad gwan, ofnus, annghyson.† Gan

† Credu ydym y gellid yn rhwydd dangos fod yr Undodiad mor gryfed i ymresymu, mor wroled i amddiffyn y gwirionedd, ac mor gysson yn ei egwyddorion â neb o honynt, gan nad faint yn fwy. Nid ydym yn meddwl hefyd ei fod yn ol i neb yn ei ymdrech yn chwilio am y gwirionedd, nac yn ei ymddiried ynddo. Ac am gyssondeb, p'un sydd fwyaf cysson, y Trindodwr a addef fod hawl gan bob dyn i ddarllen ei Feibl ac i gymeryd ei egwyddor ganddo, ond a ysgymuna o'i eglwys y neb a ddywedo yn erbyn ei gredo, neu yr Undodiad yr hwn nid yn unig a addef hawl pob dyn i farnu drosto ei hun, ond hefyd a barcha gydwybod pob dyn, er cymmaint fyddo yn gwahaniaethu oddiwrtho yn ei syniadau? Nid ydym yn gallu canfod ar bwy sail y dywed yr awdwr fod yr Undodiad yn "wan, ofnus, ac annghysson."—GOL.

hyny y mae'n angenrheidiol, onide, i ni yn gyntaf benderfynu—beth yw y Gyfraith a'r Dystiolaeth.

Nis gall yr adeilad fod yn fwy dianwadal na'r sail. Rhaid i ni, o'r diwedd, fyned i lawr a sefyll ar y sylfeini, ac edrych a ydynt yn gyfan, ac yn abl i wrthsefyll profion amser ac ergydion trag'wyddoldeb.

A ydyw'r sylfeini wedi eu profi erioed? Ydynt—gan dduwinyddion, ac i dduwinyddion; ond nid gan, nac er, y lluaws. Ac eto hyd yn nod ychydig o'r duwinyddion rhyddfrydig, fel y cwynai Neander, sydd wedi dysgu i wahaniaethu rhwng y dwyfol a'r dynol yn y Beibl, tra y mae llawer o wrandawyr y duwinyddion hyny wedi dysgu i wahaniaethu felly, heb gymorth eu bugeiliaid.

Rhyfeddol ydyw na welai duwinyddion fod yr amser wedi pasio iddynt hwy feddwl un peth a llefaru yn wahanol. "Llefara wrth y bobl yr hyn na chynhyrfa hwynt; ond ti a elli yn dy lyfrgell feddwl yr hyn a ddymunet." "Ond beth," meddai'r pregethwr ieuanc, "os bydd i'r bobl hefyd feddwl, a chael eu hysgwyd wrth fy ngweled i'n *actio* celwydd." Dyna'r hen dduwinydd a'r ieuanc.

O na ddysgai dynion nad yw iechydwriaeth dynolryw yn gofyn am ymguddio tu cefn i noddfa gelwyddog; ac nad yw ammheuaeth yn enbydus ond i'r hyn sydd ynddo ei hun yn beryglus, ac yn ammheuol.

Nid ydyw dwyn holl nerth dyn i bwyso ar golofnau'r byd yn peryglu'r colofnau: paham y dylai beryglu unrhyw wir awdurdodau?

Y cwestiwn—Beth yw pwys ac awdurdod y Beibl ydyw pwnc yr oes. Gyda'r cwestiwn yna y mae'r oes yn sefyll yn awr, ac yn betrusgar iawn hefyd. A yw pob peth yn y Beibl yn wir? A yw peth yn wir am ei fod yn y Beibl?

Yr ydym wedi meddwl a siarad nes yr ydym wedi dyfod yn ol i egwyddorion gwreiddiol. Peidiwn ag ofni rhag ymaflyd ynddynt. Cwestiwn mawr sydd genym mewn llaw. Gadewch i ni ddechreu yn y dechreuad.

Yn gyntaf, gadewch i ni sylwi ar Natur y pwnc. Nis gall dim fod yn sail isaf awdurdod sydd yn gorfod ei hun orphwys ar awdurdod arall. Chwi glywsoch am drefn Natur yn ol syniad rhyw Hindoo, fod y byd yn gorphwys ar *elephant*, a'r *elephant* ar *dortoise*. Ond yn mh'le y mae'r *tortoise* yn gorphwys? Y mae meddwl dyn yn parhau i ofyn am seiliau pethau. Mewn mater fel hyn, sef,—*y mae llyfr anffaeledig yn bod*,—peth anhawdd ydyw cyrhaedd y sail. I fod yn sicr fod unrhyw lyfr yn anffaeledig rhaid i ni wybod, yn gyntaf, a ydyw y llyfr genym yn yr iaith wreiddiol? neu ynte, mewn cyfieithad anffaeledig? Wedi'n rhaid i ni fod yn sicr fod yr *ysgrifen* wreiddiol genym, neu ynte, gopi anffaeledig o'r ysgrifen hono. Yna rhaid i ni fod yn sicr fod gwybodaeth yr ysgrifenwyr yn wybodaeth anffaeledig. Y mae pob anffaeledigrwydd, fel y rhai uchod, yn beth na welwyd erioed mewn hanes, ac nid yw yn perthyn i lyfr arall heblaw'r Beibl, os yw yn perthyn i'r Beibl.

Yn awr, y mae anffaeledigrwydd o'r fath yn debygol neu yn annhebygol. Ond sylwch. Beth y mae *tebygol* yn ei feddwl? Y mae'n arwyddo y gellir profi y peth tebygol. Nid yw anffaeledigrwydd, neu ddwyfoldeb, neu ysbrydoliaeth y Beibl yn hunanamlwg. Nid oes neb

yn dyweyd eu bod yn hunanamlwg. Rhaid eu profi hwynt ger bron brawdlys arall. O dan eich llyfr awdurdodedig, debygol, rhaid i chwi, ynte, gael rhyw awdurdod arall; hyny yw, o dan eich seiliau rhaid cael seiliau eraill.

Rhaid i'r cerrig cadarhaf orphwys ar y ddaear a bod yn agored i ddaeargrynfâau, a rhaid i'r anffaeledigrwydd tybiadwy orphwys ar gydwybod a rheswm o'r diwedd, ac os nad ydyw y gydwybod a'r rheswm yn anffaeledig, nid oes dim meidrol yn anffaeledig.

Arferwyd drwy yr oesoedd y ddadl uchod fel un hollol anwrthwynebol yn erbyn y Pabyddion a'u Heglwys, ac y mae'r un ddadl yn pwyso gyda grym annisgrifiol o fawr yn erbyn llyfr anffaeledig. Rhaid i chwi ymddiried i'ch rheswm a'ch cydwybod eich hun yn y diwedd, canys nid oes genych ddim byd arall i ymddiried iddo.

Dyweyd yr ydych—mai Moses a Christ wedi llefaru'r gwirionedd. Pa fodd y gwyddoch hyny? Yn unig drwy eich rheswm a'ch cydwybod eich hun, yr hyn rheswm a chydwybod sydd yn eich harwain i ymddiried yn Moses a Christ. Os nad yw y gydwybod a'r rheswm yn anffaeledig, nid oes i ni y fath beth ag anffaeledigrwydd. Yn amlwg, gan hyny, nid oes y fath beth ag anffaeledigrwydd, canys y mae hyd yn nod y ddwy gyneddf yna yn ffaeledig ac eisiau eu goleuo. Yn union felly, hyny yw, y mae ein holl gyneddfau yn anmherffaith yn yr ystyr o fod yn agored i gamgymeriad. Y mae cyneddfau'r corph yn dyweyd, megys wrth y meddwl, fod y ffon yna sydd yn y dwfr yn gam.

Y mae y nifer mwyaf o wirioneddau philosophyddiaeth, medd Herschel, yn ymddangos megys yn wrthwyneb i dystiolaeth y synwyrau. Nid yw philosophyddiaeth (hyny yw, yn awr yr wyf yn meddwl *science*) ond defnyddiad ehangach o'r synwyrau corphorol, ac yn gorphwys ar eu sylwadau hwy, yn yr eithafoedd. Ac felly rhaid i ni ymddiried i'n synwyrau ffaeledig, ac nid oes genym ddim gwell na'u gwellhau hwynt mor gyflym ag a allwn. Ac felly hefyd y mae, yn union, efo'n rheswm a'n cydwybod. Nid ydynt yn anffaeledig; ond rhaid i bob awdurdod sy'n gorphwys arnynt ymgymeryd o'u gwendid: nis gall yr un adeilad fod yn gryfach na'i sail. Nid oes yr un adeilad i'w ddirmygu os na hawliai fwy na hyn; ac, fel y mae'n ffortunus, nid yw'r Beibl yn hawlio mwy, nid yw yn proffesu bod yn anffaeledig.

Y mae'r syniad fod y Beibl yn anffaeledig, yn ddwyfol, yn ysbrydoledig, yn ddiweddarach nag amser Crist, ac unig sail y syniad ydyw y testyn fod "yr holl Ysgrythyr wedi eu rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw." Ond nid yw y testyn yn dyweyd dim am anffaeledigrwydd, a chywirdeb llythyrenol y cyfieithadau. Ac y mae rhai ysgolheigiou yn cyfieithu y testyn—"Pob ysgrythyr ag sydd wedi eu rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw," &c. Ac y mae Tertullian yn cyfieithu—"Y mae pob ysgrythyr ag sy'n fuddiol wedi eu rhoddi," &c. Ac felly nid yw y testyn yna yn penderfynu dim ond yr ammhosibilrwydd i benderfynu dim drwy'r Ysgrythyrau.

Y mae'r angenrheidrwydd am gyfieithad yn cynwys tramgwydd anocheladwy. Gall pob ysgolhaig gyfieithu yn union fel y dymuno. Gall fod gan Undodiaid gyfieithad; Methodistiaid un arall; Bedyddwyr

un arall; Esgobyddion un arall, ac felly y'mlaen. Y mae llawer plentyn yn cael ei gymeryd o ysgol rhag i'r cyfieithad Protestanaidd gael ei ddarllen ganddo. Ond nid ydyw'r holl anhawsder yn gorwedd mewn cyfieithu. O'r holl frawdlysoedd ansicr a fabwysiadodd marwolion ffaeledig, y Beibl sy'n ymddangos fel y mwyaf ansicr.

Y mae y Beibl yn gyfansoddedig o ysgrifeniadau cant o wahanol awduron, ac fe ellir tynu o honynt ddadleuon i gynorthwyo y naill ochr neu'r llall o unrhyw gwestiwn. Rhyfel, caethwasiaeth, cosp farwol, amlwreiciaeth, arferiad diodydd meddwol—y mae yn fwy hawdd, o lawer, i ni benderfynu o honom ein hunain a yw y pethau hyn yn dda neu'n ddrwg, nag yw i ni brofi a ydynt yn ysgrythyrol neu yn anysgrythyrol. Y mae pob un a deithiodd yn y taleithau deheuol o Unol Daleithiau yr America yn gwybod mai twr cadarn Caethwasiaeth oedd y Beibl, ac mi a glywais weinidog yr Efengyl yn condemnio Dirwest fel peth anysgrythyrol, ac yn haeru y dylai dirwestwyr fod yn Fahometaniaid yn union.

Dechreuwch unwaith i ddadleu pwnc ar dir ysgrythyrol, chwi a gewch wybod ei fod yn debyg iawn i ymladd mewn coedwig lle y mae yna brenau o bob defnydd ac i bob pwrpas. Chwi ellwch hefyd yn y goedwig ymladd trwy'ı dydd yn erbyn eich gwrthwynebwr heb ei weled. Ar faes y Beibl chwi ellwch, y ddwy ochr, ddifynu adnodau ar yr hyn a dybiasech oedd y pwnc, ac yn y diwedd weled nad oeddech yn deall eich gilydd yn iawn, na beth oedd y cwestiwn. Ac felly y mae'r *holl* faes i *bob* un. Nid oes diwedd ar yr anghysonderau galarus o esboniadau o'r Ysgrythyrau, ac i'r ymarferiadau dyeithr a thrist, sylfaenedig ar yr esboniadau hyny. Ac eto, y mae'n beth chwith, y mae dynion wedi dewis y cyhuddiad yna hefyd yn erbyn y neb sy'n ceisio canlyn y goleuni tumewn, y gydwybod. Medda'r cyhuddwyr—"Eich crefydd naturiol, beth ydyw? Mewn un wlad y mae yn un peth, ac mewn gwlad arall, peth arall ydyw. O dan arweiniad y gydwybod y mae'r Hindoo yn llosgi gweddw ei frawd trangcedig, ac o dan yr un arweiniad y llosgai y Puritaniaid ddewiniaid."

Ond y mae'r gymhariaeth yn un mor anmhriodol ag yw'r cyhuddiad, canys allan o'u llyfrau sanctaidd y cafodd yr Hindoo a'r Puritan y tanwydd i gyneu'r tân y'mha un yr aberthasant eu trueiniaid. Pe gwrandawsent ar y llais tumewn hwy a ymddygasent yn wahanol. Llawer calon dyner y'mhlith y Puritaniaid a rwygwyd wrth edrych ar yr arteithiau a weinyddai y saint gwgus ar y rhai a gosbent. Dywedai rhai o'r Puritaniaid nad oedd y fath beth a dewin yn bod, oddieithr y gweinidogion, a'r esbonwyr, a'u canlynwyr. Ond, er hyny, fe safai yr offeiriad wrth y tân, a dywedai—"Fel hyn y dywed yr Arglwydd,"—ac y'mlaen yr ai y gyflafan. Y mae y creulonder mwyaf a welodd y byd erioed wedi codi allan o *weledigaethau* dychymygol, gweledigaethau a ddisodlent oleuni natur. Peth ysgafn, mewn cymhariaeth, yw holl waed rhyfel Germany, i waed y Chwilys; ac yn wir, y mae gwaed pob rhyfel wedi rhedeg oddiwrth ryw chwilys neu gilydd. Y mae yr hyn a elwid crefydd wedi bod wrth sylfaen pob rhyfel a fu erioed. Ac eto yr ydym yn gweled dynion ag sy'n meddwl fod pob syniad o dda a drwg sydd gan bobl yn ngwledydd cred, wedi tarddu oddiwrth y Beibl.

Gwrthdroad dyeithr yw hynyna o awgrymiadau a greddfau natur ynom. O ba le y daeth y gwrïd, a'r edrychiad i lawr, gan gywilydd, sydd ar rudd eich plentyn bach, fy ngyfaill, y tro cyntaf yr anufuddhaodd i ti; neu y'th dwyllodd di? Nid, yr ydym yn sicr, oddiwrth yr un *oracl* allanol, ond o'r tumewn. O'r byd anweledig y daeth y lliw tanllyd, ac a ddaeth yn etifeddiaethol, gydag ysbryd y bychan. Yr ydym yn ymwybyddus o'r gwahaniaeth rhwng da a drwg yn yr un modd ag yr ydym yn wybyddus o'r gwahaniaeth rhwng goleuni a thywyllwch. Y mae Naturiaethwyr yn dyweyd nad yw y gwahaniaeth rhwng tymherau meddyliol dynion ddim mwy na'r gwahaniaeth rhwng galluoedd dynion, yn faterol, i farnu lliwiau.

(I'w barhau.)

TWYLL CYTHREULIG.

"Ond melldigedig yw y twyllodrus."—MALACHI.

At y Golygydd.

Syr,

Yn yr YMOFYNYDD diweddaf y mae rhyw B. bawaidd yn gollwng allan ei lysnafedd brwnt ar draws yr Hen Lyfr anwyl. Dywed fod [*pob un* o lyfrau] yr Hen Destament "yn dyweyd fod Duw wedi gorchymyn i'r offeiriaid a'r prophwydi i gyfarwyddo'r bobl i *fenthyg gan*, neu *ladratta oddiar*, neu *ladd* y cenedloedd na dderbynient grefydd yr Israeliaid—y mae pob llyfr o'r fath yn ffrwyth twyll sanctaidd, yn Saesneg, *pious fraud*." Yr wyf finau yn beiddio dyweyd fod yr haeriad disail uchod yn ffrwyth twyll *an*sanctaidd, yn Saesneg, *impious fraud*. Beiddiaf ddyweyd rhagor, y mae yn ymosodiad *bwriadol*, ac felly "yn ffrwyth twyll" *cythreulig*; ac yr wyf yn herio y B. hwn i brofi ei haeriad uchod, mewn cyssylltiad â llyfr Malachi. Wedi hyny, os gwna ei waith yn foddhaol, af yn ol at lyfrau eraill. Bydd ganddo yn hyny ddigon o waith blwyddyn, heb i mi osod yr un cwestiwn iddo ar y paragraphau eraill.

Nid wyf yn ystyried yr ymadrodd—"Y mae rhyddid yn yr YMOFYNYDD i bob barn gael ei llafar"—yn glogyn digon mawr i guddio esgeulusdod, neu ddifaterwch, neu anoethineb y Golygydd,* nad pa un ydyw, yn gollwng trwy yr YMOFYNYDD ar draws y wlad, y fath athrod mileinig, y fath gabledd cythreulig, ymosodiad mor ddisail ar Hen Lyfr yr holl lyfrau,—llyfr sydd wedi gweini cysur ac heddwch, bywyd, dyddanwch, a nerth newydd i filoedd yn y canrifoedd a aethant heibio,—ac a barha i weini mwyniant mwy eto i filoedd heb eu geni, yn y canrifoedd dyfodol. "Rhodder i bob barn ei llafar," wrth gwrs, ac yn yr YMOFYNYDD hefyd; ond er fod y llythyren B yn dechreu Barn, cofier ei bod hefyd yn dechreu Breuddwydd, Birkenhead, a Binns. Nid breuddwyd fodd bynag yw barn, ac nid barn sydd gan B. Y mae barn yn golygu ymchwiliad personol, gofal a gonestrwydd; a chyn fod barn yn teilyngu lle yn yr YMOFYNYDD, dylai ddangos rhyw beth heblaw newydd-deb—dylai ddangos medrusrwydd, ac o leiaf rith o gyssondeb. Rhaid fod gan ddyn chwyddiadur mwy nerthol na'r un trwy yr hwn y mae Dr. Carpenter yn penderfynu pa un ai *whig* neu *tory* fydd *embryo* tri mis oed, cyn byth y gallo ganfod cyssylltiad y brawddegau a'r paragraphau, cyssondeb na medrusrwydd na gonestrwydd y llith bawaidd B. Os na ellir rhoddi chwareu teg i'r Hen Lyfr, rhodder o leiaf lonydd iddo.

PHILALETHES.

Y DRINDOD YN YR ATHRAWIAETHAU.

YN y *Christian World* am y 15fed o Fedi, ceir hanes ordinasiwn y Parchedig R. J. Howell, fel bugail newydd capel y *Burrows*, Abertawe. Y mae ei gredo yn

---

* Pwyll, pwyll, Philalethes. Mae ein gwaith yn cyhoeddi erthygl B. yn rhoddi cyfleusdra i chwi ac eraill sy'n medru, i ddinoethi gwendid y fath haeriadau disail a adroddir yn awr gan rai yn nes atom na Birkenhead.—GOL.

newydd, ac y mae yn ymddangos i mi yn deilwng o sylw darllenwyr yr YMOFYNYDD yn y ganrif bresenol hon. "Wrth roddi cyfrif o'i syniadau duwiuyddol, dywedodd mewn perthynas i athrawiaeth yr Iawn, ei fod yn credu bron pob *theory* ag oedd wedi dyfod i'r byd mewn cyssylltiad a'r pwnc. Yr oedd tair *theory* fawr mewn cyssylltiad a'r pwnc hwn; dyna'r *satisfaction theory;* wedi hyny, y *governmental theory;* wedi hyny, y *moral influence theory.* Yr oedd efe yn eu credu oll. Yr oedd yn credu fod marwolaeth Crist wedi cynyrchu dylanwad moesol ar y pechadur yn bersonol; fod y *theory* lywodraethol wedi symud ymaith pob rhwystr yn llywodraeth Duw yn y ffordd iddo faddeu pechaduriaid; ac yr oedd yn credu, hefyd, fod marwolaeth Crist wedi rhoddi boddlonrwydd i'r cyfiawnder Dwyfol. O barthed i athrawiaeth poenedigaeth trag'wyddol, nid oedd yn barod i dori yr angorfaoedd oedd wedi dal y llong dros gyhyd o amser, a drifftio nas gwyddai i ba le. Nis gallasai gredu yn niddymiad enaid y pechadur—nid oedd yn gallu cael hyny yn y Beibl."

Mae yn debygol mae gwr ifanc yw Mr. Howell, ond y mae wedi profi ei hun allan o'r *common run* o ddynion ieuainc. Nid allaf fi lai nag edmygu gwr ieuanc fyddo yn aredig ei gwys yn wahanol i'r dull arferol. Rhedeg ar ol eu gilydd y cawn ni fod yr amlaf rif o ddynion o hyd. Cawn yma beth newydd mewn duwinyddiaeth. Trindod yn yr athrawiaeth o Haeddiant Crist. *Idea* bert ydyw. Ond nid wyf yn proffesu ei deall. O bosibl mae fy niffyg i ydyw hyny. Nid wyf wedi fy nonio a galluoedd mawrion. Hyd yma nid wyf erioed wedi gallu derbyn yr athrawiaeth o drindod o bersonau yn yr hanfod ddwyfol. Fe allai nad peth i'w ddeall yw, ond i'w dderbyn. Nid wyf erioed wrth glywed darluniad o'r tri pherson hanfodol i'r drindod, wedi bod yn alluog i weled y'mha beth y mae'r undod neu'r undeb yn gynwysedig. Ymddengys cymeriad y tri pherson i mi mor berffaith groes ac anghyson, fel yr wyf yn teimlo yn syn ambell dro na buasai y rhai a goleddant y cyfryw syniadau yn ferthyron i *dyspepsia* duwinyddol. Eto nid felly y mae yn bod mor bell ag y gallaf fi, fel *outsider*, farnu. Wedi derbyn yr athrawiaeth hon, a'i chael yn gorphwys yn esmwyth; nid wyf yn gweled pa anhawsdra all fod i dderbyn athrawiaeth newydd Mr. Howell, o drindod yn yr Iawn, a dyfod felly yn bob beth i bawb, fel y gellir enill nid rhai, ond llawer. Os bydd un yn yr eglwys yn dal un *theory*, ac un arall yn dal yr ail, ac un arall y trydydd, ni bydd gwahaniaeth, bydd Mr. Howell yn gydradd â hwynt oll.

Nid yw Mr. Howell wedi traethu ei farn yn eglur iawn o barthed i athrawiaeth poenedigaeth trag'wyddol. Y mae yn ieuanc eto, ac y mae yn bosibl nad yw wedi dyfod i benderfyniad. Gobeithiwn fod bywyd hir o'i flaen; ond wedi myfyrio y pwnc, diau y cawn ni ryw beth ganddo teilwng o'r gwreiddiolder y mae wedi ddangos eisioes. Darllened Jonathan Edwards a Phregethau Spurgeon, Simpson o Bath, a Southwood Smith *on Divine Government*, y'nghyd a'r llythyrau a ymddangosasant yn ddiweddar yn y *Christian World.* Wedi darllen y rhai hyn, bydd yn gwybod, os nad yw yn gwybod eisioes, fod "tair *theory* fawr mewn cyssylltiad a'r pwnc hwn." Dyna'r *theory pure and simple* o boenedigaeth dragywyddol, yn ol yr hon y mae Duw yn cael gogoniant cymmaint yn namnedigaeth y miliynau ag y mae yn gael yn nghadwedigaeth y miloedd. Athrawiaeth gysurus, fe allai, i'r miloedd hyny; *but not for the other party.* Wedi hyny, dyna'r *annihilation theory*, neu *theory* y diddymiant. Yn ol y *theory* hon y mae'r drwg i gael eu gadael yn y bedd byth. Gwell i ti gael dy adael yn y bedd, ddarllenydd, na chael dy adgyfodi i boenedigaeth drag'wyddol yn nhân uffern. Y *theory number three*, yn gwneuthur i fyny y drindod yn yr athrawiaeth hon—(a yw y tri hyn yn un, wys?)—yw, yr athrawiaeth o adferiad, neu yn iaith y Sais, *Universal Restoration.* Yn ol hon bydd pawb yn gadwedig yn y diwedd; ca pawb ar ol myned trwy *process of purification*, trwy gyflwr o ddysgyblaeth, o'r fath ag y byddo Tad yn ei weled yn addas er puro ei blant, a phawb ydynt blant iddo Ef—gyrhaeddyd gororau yr anfarwol fyd dedwydd yn y diwedd.

Wedi darllen y tair *theory* yma a myfyrio arnynt yn ddwfn ac yn hir, gan gofio o hyd i gadw ei hen spectal ar ei drwyn, gyda'r hon y bu mor llwyddianus o barthed i athrawiaeth yr Iawn; beth all fod yn rhwystr iddo i ddyfod i'r un casgliad, a dyweyd "y tri hyn un ydynt?" Nid oes dim yn fwy anghyson ynddynt, dim yn croesi eu gilydd yn fwy. Wedi hyny aed dros holl faes yr ath-

rawiaethau duwinyddol, â'r un spectal ar ei drwyn, a diau y caiff ynddynt oll yr un drindod, ac y gall ddyweyd am danynt oll, "y tri hyn yn un y maent yn cytuno." ZOILUS.

O.S.—Ceir help tuag at y pwnc hwn yn llyfr rhagorol Dr. James Freeman Clarke, "*On the Truths and Errors of Orthodoxy.*"

EIN HYSGOLION SUL.

O BARTHED i'r paragraph yn yr YMOFYNYDD diweddaf (tud. 284), caniatewch i mi ddyweyd nad wyf erioed hyd wyf yn cofio wedi ysgrifenu gair ar yr Ysgolion *Sabbothol;* ac o barthed i'n Ysgol *Sul* (y rhai ydynt oll mor bell ag y gwn i, yn cael eu cynal dranoeth i'r dydd Sabboth) nid wyf yn proffesu rhoddi rhagor nag oeddwn yn gael yn *Report* y *Sunday School Association.* Mae atebiad y gofyniadau gan hyny yn rhwydd ddigon. 1. Rhoddir cyfrif o'r oll a geir yn y *S. S. Report.* 2. Mae Ysgolion Gellionen, Blaengwrach, &c., os ydynt "yn cael eu cynal," yn debyg o fod yn cael eu cynal, y naill yn y Gellionen (os nad yw yn nghraig Trebanos), a'r llall yn Blaengwrach, &c. Ond pa le mae *cyfrif* yr Ysgolion yma nis gwn, o bosibl, nad yw yn cael ei gadw. Gwn un peth, nad yw yn y *S. S. Report.* Nid wyf yn deall y cwestiwn nesaf. 3. Nid wyf yn anfon am y "cyfrif at neb, a phe'r anfonwn nid oes genyf un lle i gredu y llwyddwn i gael y cyfrif, yn fwy nag Ysgrifenydd y Gymdeithas. Dywed ef ei fod wedi anfon drosodd a throsodd at arolygwyr rhai o'r Ysgolion crybwylledig, ond nad ydynt wedi gweled yn addas i ddanfon yn ol y cyfrif, nac ychwaith i ddychwelyd y *stamp* amgauedig. "Os nad ydyw." Os nad ydyw *beth?*—yn anfon am y cyfrif? Na, nid felly, oblegid nis gallasai ddodi i lawr ar gyfer y lle '*no return,*' a minau heb anfon, &c. Beth, gan hyny, all fod ystyr y frawddeg, *I give up*? Gyda golwg ar yr ensyniad maleisus fod y cyfrifon yn "anghywir" ac "y'mhell o fod yn iawn" ni ddywedaf ond hyn, nad wyf yn credu y gwnelai neb yn meddu y rhith leiaf o foneddigeiddrwydd neu o deimlad Crist'nogol y fath ensyniad heb roddi rhyw brawf. Nid yw fod y cyfrifon yn anghyflawn yn profi eu bod yn "anghywir" na'u bod "y'mhell o fod yn iawn." Ond os ydynt yn bob un o'r ddau, yr hyn nid yw wedi ei brofi, y mae'r diffyg yn gorphwys naill ai ar arolygwyr neu ysgrifenwyr yr Ysgolion Sul; nid wyf fi yn atebol am dano os na ellir profi fod fy adroddiad i yn gwahaniaethu oddiwrth adroddiad y *S. S. Association.*

Yr wyf wedi synu lawer gwaith na buasai yr adroddiad yn fwy cyflawn, ac yr wyf wedi dadgan fy nymuniad i'w weled felly fwy nag un waith." "Y mae pawb sydd yn gwybod rhyw beth am ein"—Ysgolion Sul—"yn gwybod" fod y cyfrif o honynt yn fwy cyflawn nag oedd bedair blynedd yn ol. Y mae eto le i wella. Ond y mae gwahanol farnau gyda golwg ar ba beth yw gwelliant. Mewn atebiad i'r *Paham* na buasai yr adroddiad yn fwy cyflawn, gellir rhoddi llawer o resymau. Yn mlaen y gâd gellir gosod esgeulusdra mewn llawer man lle nid oes cyfrif yn cael ei gadw, ond nid ydyw yn canlyn oblegid hyny nad yw yr Ysgol yn cadw ei lle, a hyny yn dda. Mewn rhai manau cedwir cyfrif ond esgeulusir ei anfon i fyny i Lundain. Cedwir cyfrif yn rhai Ysgolion hefyd, lle yr ystyrir nad oes a fyno pobl Llundain a'r cyhoedd yn gyffredin a gwybod sefyllfa rhagoriaethau—neu ddiffygion—eu hysgol hwy. Mae gan rai *scruples* neu *crotchets* yn erbyn rhoddi cyfrif eu Hysgol. Fodd bynag, os bydd ryw Ysgol am gael ei chyfrif yn argraffedig, anfoned am *form* i'w llanw at Ysgrifenydd y Gymdeithas, Mr. Wade, Penn Road Villas, Camden Road, LONDON, N., a hyny erbyn y Pasg nesaf.

Bore dydd Llun, Hydref 2, 1871. R. J. J.

HEN LYTHYRAU O GYMRU.*

LLYTHYR VI.

[At Mary Powell, Pencader, America.]

Bargod, Tach. 20, 1721.

Fy anwyl Chwaer:—Cefais lythyr oddi wrthych tua dau fis yn ol, a chefais lawer o bleser wrth ddarllen eich hanes. Da genyf eich hysbysu ein bod ni oll yn iach. Anfonais hanes priodas Siencyn i chwi yn y llythyr o'r blaen. Yr wyf yn teimlo ein cartref yn unig ac yn ddiflas anghyffredin ar ol i Siencyn ymadael. Y mae Siencyn wedi cael un o'r merched goreu a garnodd erioed, a hi yw y gyfeilles oreu sydd genyf yn y wlad ond fy mam.

Bu yn amser anghyffredin yn yr ardaloedd hyn noswyl Ystwyll diweddaf. Byddai lluaws o bobl, fel arferol, yn galw heibio i bawb oedd newydd briodi oddiar gwyl Ystwyll o'r blaen, i gael bwyd a chwrw ganddynt. Yr oeddynt wedi dala llawer o ddrywod i'w cario gyda hwy, ac wedi gwneyd llawer o gadnoaid gwellt a chanwyllau *pitch* i'w goleuo, a chael *fifes* i ganu, a drylliau i saethu, a byddent yn gofyn ar gân wrth bob ty am dderbyniad i mewn. Ond yr oedd Siencyn fy mrawd wedi mynu Twm Prydydd Parod i'w sefyll, ac wedi cloi y drws i'w herbyn; ac fe fu gweithio twym rhwng Twm a hwythau. Ym mysg llawer o bethau eraill byddai Twm yn canu:

"Mae gwr y ty yn y gwely,
A'i wraig gynhes yn ei fynwes;
Gadewch lonydd i'r pâr dedwydd."

Trachefn:

"Mae'r gerwyn facsu'n Aberhonddu,
A'r ffon a'r dra'n yn Nghilgeran,
A'r barilau'n Abertawe;
Pan bôm ni'n barod dewch gael diod."

Trachefn:

"Mae'r crochan sucan ar ben pentan;
Mae i chwi roeso, dewch mewn ato."

Trachefn:

"Mae'r llath enwyn yn stond y mochyn,
Yn y cafan o'r tu allan;
Ewch at hono, mae i chwi roeso."

Trachefn:

"Mae'r ceirch purlan yn yr ydlan;
'Nol ei ddyrnu, nithio, a malu,
Deuwch yma i gael bara."

Cariodd Twm y dydd yn deg arnynt, ac yn ol iddynt fyned yn fud, heb ddim i'w ddywedyd, fe gyfarchodd Evan Blaenycwm, eu blaenor fel hyn:

"Ifan, Ifan, paid â chrawcian,
Ni fedri ddadgan, fwy na chigfran;
'R wyt ti'n lleisio fel ci'n udo,
Neu fel parchell dan y gyllell;
Cau dy safan, yr hen Satan."

Bu rhai o honynt yn rhuo yn enbyd ac yn bygwth tori y drws, ac fe saethwyd ergyd o *shots* ato, ac y mae llawer o honynt yn y drws yn awr. Dywedir mai Twm Penddol wnaeth hyny yn ei feddwdod. Yr oeddynt yn

---

**Allan o "Faner America," Medi 7*, 1870.

gwybod fod dryll dwbl faril gan Siencyn yn y ty, ac fe dd'wedodd Twm Prydydd wrthynt:

"Os na fyddwch yn sifil, caiff y dryll dwbl faril
Yru'r plwm tanllyd i'ch plith mewn mynyd."

Ac felly aethant ymaith heb gael dim, ond darfu iddynt lwyddo i gario y dydd a chael bwyd a chwrw y'mhob ty arall lle y buont yn galw.

Yn awr rhaid i mi ddyweyd ychydig o'm hanes fy hun wrthych. Ym mis Mawrth diweddaf fe gymmerwyd Sioned Bwlchgwyn yn sal iawn, a chwech diwrnod bu hi byw. Yr oeddwn i yno y noswaith y bu hi farw, ond nid oedd neb yn meddwl ei bod yn myned i farw y pryd hyny. Yr oeddwn i yn eistedd ar bwys y gwely. Hi drodd ataf yn ddisymwth, gan edrych yn hynod o wyllt, a dyweyd, "O Anna, Anna! O na fu'swn wedi gwrando ar Mr. Lewis y Dinas! O beth wnaf fi? Rhaid i mi fyned i'r tân i fyw byth! Dyma nhwy'n d'od! Dyma nhwy'n d'od!" Cefais ofn trwy fy nghalon, a gelwais y lleulu yno, ond ni wnaeth sylw mwy o neb. Rhoddodd ochenaid neu ddwy. Gwelwn ei llygaid yn sefyll yn ei phen, a chlywn rwnc yr angau yn ei gwddf, a bu farw yn y fan. Pregethodd Mr. Lewis yn ei hangladd yn sobr ofnadwy oddiwrth Preg. xi. 9, "Gwna yn llawen, wr ieuanc, yn dy ieuenctyd, a llawenyched dy galon yn nyddiau dy ieuenctyd, a rhodia yn ffyrdd dy galon, ac yn ngolwg dy lygaid; ond gwybydd y geilw Duw di i'r farn am hyn oll." Effeithiodd y farwolaeth a'r bregeth yn rhyfedd arnaf. Bum heb gysgu am dair noswaith, ac erbyn y bore ar ol yr angladd yr oedd fy mhen bron hollti gan boen. Bum yn y gwely trwy y dydd, a'r noswaith hyny fe ddyrysodd fy synwyrau, a bum felly am bum' niwrnod, a Dr Williams, Dolgoch, yn d'od ataf fi bob dydd. Nid wyf yn cofio dim basiodd yr amser hyny, ond i mi fod yn uffern, ac yr oedd yno le ofnadwy; Mi welais Sioned Bwlchgwyn ac eraill oeddwn yn adnabod, yn y flamiau; a'r cythreuliaid â phigffyrch mawrion yn taflu y tân fel mydylau gwair ar eu penau yn barhaus. O le dychrynllyd! Wedi i mi ddyfod ataf fy hun, yr oeddwn yn methu credu nad yn uffern yr oeddwn, nes daeth Mr. Lewis y gweinidog ataf, a dyweyd wrthyf am drugarowgrwydd Duw, a'i barodrwydd i faddeu i bechaduriaid, a bod gwaed Crist yn glanhau oddi wrth bob pechod; ac am i mi roi fy hunan i Grist fel pechadur y buaswn yn sicr o gael fy nghadw. Wedi i Mr. Lewis fyned o'r ty mi droais at Iesu, a dywedais, "O Iesu, cadw fi! Yr wyf wedi bod yn ferch annuwiol; O maddeu i fi! Yr wyf yn rhoi fy hun i ti yu greadur drwg fel yr wyf. O cymmer fi! O maddeu!" Ac yn y man mi feddyliais fy mod yn gweled yr Iesu, a'i fod yn edryeh yn hardd iawn, ac yn gwenu arnaf, ac yn dyweyd, "Yr wyf yn maddeu y cyfan." O hyny allan yr oeddwn yn siarad â phawb oedd yn d'od i fy ngweled, am uffern, a Sioned Bwlchgwyn, a'r Iesu yn maddeu fy mhechodau; nes yr aeth yn gynhwrf mawr am hyny trwy y gymydogaeth, ac y torodd allan yn ddiwygiad rhyfeddol. Cafodd pedwar ar hugain o honom ein derbyn yn Pantycreuddyn yr un Sabboth. Ni welwyd cymmaint o bobl yno erioed a'r Sabboth hwnw. Derbyniwyd pedwar ar ddeg yno y Sabboth cymundeb ar ol hyny. Fe ledodd y tân i Bencader, ac fe dderbyniwyd yno bymtheg; ac i Lechryd, ac fe dderbyniwyd yno chwech ar hugain. Nis gallaf ddyweyd pa mor dda genyf fy mod wedi myned at grefydd, oblegid yr wyf yn llawer mwy hapus nag oeddwn o'r blaen. Nid oedd genyf flas yn y byd ar ddarllen y Beibl cyn hyny, ond fel yr oedd nhad a mam yn peri i fi ei ddarllen; ond yn awr gallaf ei ddarllen trwy y dydd heb flino. Yr oedd ofnau ac euogrwydd yn peri llawer o ofnau i mi o'r blaen, ond yr wyf yn awr yn teimlo yn gysurus, yn enwedig yn y cwrdd; ac nid wyf yn malio brwynen am y fleiriau a'r neithiorau fel yr oeddwn i. Yn y cwrdd yr wyf yn cael y pleser mwyaf. Fe fuasai yn dda genyf pe buasech chwi yma pan yr oeddym yn

cael cin derbyn. Yr oedd Mr. Lewis yn siarad yn dda, ac yn ddrylliog iawn y Sabboth hwnw. Ond mi glywais fod Jenkin Jones yn gwneuthur gwawd o honom; ac yn dyweyd mai teimladau cnawdol oedd yn ein cynhyrfu, a'i fod yn son yn llymeirus am "*ddiwygiad Anna'r Bargod.* Dyna yr enw sydd ganddo ar y diwygiad. Yr wyf yn synu fod pregethwr fel efe yn siarad felly.

Ond rhaid i mi roi tipyn o hanes y gymydogaeth i chwi cyn terfynu. Fe fu cwrw bach yn ddiweddar gyda Esther Llwyndu, i gael ei chynorthwyo ar ol iddi golli ei buwch, ond nid oeddwn i yno, ond fel y clywais yr hanes gan craill. Yr oedd yno rai bechgyn wedi yfed yn lled drwm, ac fe aeth John, mab Evan Blaenycwm, a Shaci Penrallt i dafodi yn lled ddrwg. O'r diwedd fe wedodd Shaci ryw ciriau pigog wrtho am y Scotshman a chladdu yn ochr y clawdd. Gyda hyny fe aeth John mor ddiflas a phe byddai wedi cael ci daro â baw yn ci ddannedd. Aeth yn eithaf sobr ar unwaith, ac aeth allan yn ddystaw bach, a ffwrdd ag ef heb ddyweyd gair wrth neb. "Dyna," meddai un o'r bechgyn wrth Shaci, "gwell i ti edrych atat dy hun mwy." Pan oedd Shaci yn myned adref, aeth saith neu wyth o fechgyn gydag ef. Un neu ddau yn ci ymyl, a'r lleill yn nes yn ol, a phan ddaethant i dro y ffordd gerllaw Penrallt, pwy oedd yno yn eu dysgwyl ond John Blaenycwm a'i dad; ond gan fod yno ormod o gwmni ni ddarfu iddynt gynyg gwneyd dim i neb. Fe waeddodd rhai o'r bechgyn arnynt ar ol myned heibio am iddynt gymeryd gofal, fod rheffynau cywarch yn y byd o hyd, a bod gwaed y Scotshman yn parhau i waeddu "dial, dial."

Y mae rhyw si trwy y gymydogaeth fod Evan yn hala llawer o'i amser gyda rhyw hen ferch ddrwg tua Bwlchygroes. Onid yw yn beth ofnadwy fod gwr gwraig yn gwneyd rhyw waith felly? Barn llawer yw y bydd i'r gwr drwg dd'od a myned ag Evan yn gorfforol ryw ddiwrnod, o herwydd ei fod yn ddyn mor ddiwg.

Y mae Wil Rees, Penrhiw, newydd ddyfod yn ol o Loegr, mewn dillad da, gwell na sy gan neb y ffordd hyn; ac y mae llawer yn fwy hy nag oedd ef. Y mae yn siarad â'r gwyr boneddigion fel pe byddai yn wr boneddig ei hunan, ac y maent yn gwneyd cetyn o sylw o hono. Nid yw ef yn gwneyd un sylw o honof fi yn awr, pe bawn yn falio rhyw beth am hyny. Ni fu genyf fi ddim llawer o olwg arno un amser. Yr wyf wedi cael par o ddillad da yn ddiweddar, a chyfrwy tuog, ac y mae nhad a mam yn garedig iawn i fi; ond y mae iechyd nhad yn fwy brecus nag oedd ef. Yr ydym newydd ddybenu â'r cynauaf gwair, ac heb ddechreu y cynauaf llafur.* Cofiwch ysgrifenu yn ol yn fuan, â chymmaint o hanes ag a alloch ci roddi.

Ydwyf, eich gostyngedig Chwaer,

ANNA BEYNON.

GELLIR gorchfygu pob rhwystrau, braidd, gyd â diwydrwydd.

MEDDWL yn unig arweinia ddyn i wybodaeth, Gall weled a chlywed, darllen a dysgu beth bynag a fyno; er hyny ni fydd yn gwybod dim yn ei gylch, oni fydd wedi meddwl arno—oni fydd wedi ei wneuthur trwy gyfrwng ei ddeall yn eiddo ei hun. A ydyw yn ormod, gan hyny, i ddyweyd mai trwy feddwl yn unig mae dyfod yn ddyn? Cymerwch ymaith feddwl o fywyd dyn, a pheth sydd ar ol? Dim o werth.

---

* Rhaid fod amseriad y llythyr hwn yn anghywir, gan nas gallasai cynauaf yr yd lai na bod drosodd y'mhell cyn yr 20fed o Dachwedd. Gwelir mai yr un yw amseriad y llythyr hwn â Llythyr V. Y mae amryfusedd wedi dygwydd yn rhywle.

Ein Neglwysi.

CYFARFOD CWARTEROL HYDREF.

Yr oedd yn hysbys i'n darllenwyr fod y cyfarfod hwn i gael ei gynal eleni yn yr Onenfawr, ger Llandilo, ar y pedwerydd a'r pummed o Hydref. Cafwyd cyfarfod rhagorol. Y gweinidogion yn bresenol oeddynt :—

Y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar.
——— John Evans, Gellionen.
——— E. W. Lloyd, Cwmbach.
——— John Davies, Alltyblaca.
——— Walter Jenkins, Penrhiw a Panteg.
——— S. Hunter, Athrofa Caerfyrddin.
——— E. Higginson, Abertawe.
——— D. L. Evans, Athrofa Caerfyrddin.
Mr. George Evans, } Myfyrwyr.
— Walter Evans, }

Dechreuwyd y gwasanaeth prydnawn dydd Mercher gan Mr. Evans, Gellionen, a phregethodd Mr. J. Davies. Ei destyn oedd Math. iv. 12—25. Er fod y testyn yn un maith, yr oedd y bregeth yn gryno a chynwysfawr. Os ydym yn cofio yn dda, sylwodd fod yr Iesu yn ei weinidogaeth yn cadw golwg yn wastadol ar les tymhorol ac ysbrydol dynolryw, fod ei gydymdeimlad yn hollol fywiog, a defnyddioldeb ei weinidogaeth yn uniongyrchol. Dyma'r sylwedd, os nid yr un geiriau. Ar ei ol pregethodd Mr. Jones oddiwrth y testyn canlynol sydd yn Marc xiv. 41, "Cysgwch weithian, a gorphwyswch; digon yw; daeth yr awr; yr ydys yn bradychu Mab y dyn i ddwylaw pechaduriaid." Sylwodd y pregethwr fod cyfleusdra yn cael ei roddi i'w ddysgyblion i wneuthur ychydig dros Grist, ac i fod cyfleusderau yn cael eu rhoddi i bawb, y rhai ddylem ddefnyddio tra fyddont o fewn ein cyrhaedd. Pregethau da.

Boreu dydd Iau dechreuwyd am ddeg trwy ddarllen a gweddio gan Mr. Jenkins, yna traddodwyd y bregeth gan Mr. Lloyd. Yr oedd ganddo ddau destyn, y cyntaf yn Luc ix. 56, "Canys ni ddaeth Mab y dyn i ddistrywio eneidiau dynion, ond i'w cadw," a'r ail oedd yn Ioan xii. 47....."Canys ni ddaethum i farnu y byd, eithr i achub y byd." Byddai yn anhawdd gwneuthur cyfiawnder â'r bregeth mewn byr eiriau. Gorphwysodd y pregethwr yn benaf ar natur y gadwedigaeth yn Nghrist Iesu, a'r modd y mae yn effeithio ar galonau dynion. Cafodd wrandawiad astud gan bawb oedd yn bresenol, a gobeithio y bydd y sylwadau rhagorol a wnawd o les.

Wedi gorphen y bregeth, appwyntiwyd Mr. D. L. Evans i'r gadair, yr hwn a roddodd gyfleusdra i neb a ddewisai i ofyn cwestiynau i'r pregethwr er mwyn cael rhagor o eglurhad os oedd rhywbeth yn y bregeth yn ymddangos yn anghysson neu yn annealladwy, a chan nad oedd neb yn cynyg dyweyd dim, acthpwyd y'mlaen at y pwnc, sef *Bywyd trag'wyddol*—beth ydyw, ac y'mheth y mae yn gynwysedig. Llefarwyd arno yn rhagorol gan Mr. Jones, Mr. Rees, Mr. Hunter, a Mr. Higginson. Cytunent oll fod y bywyd trag'wyddol yn dal cyssylltiad â'r un presenol, ac yn gynwysedig yn y dedwyddwch a dardda o iawn-adnabyddiaeth o Dduw, ac mewn cyffelybrwydd iddo yn ein buchedd a'n hanian.

Darfu i Mr. Jones wneyd ychydig sylwadau gyda golwg i wneyd rhyw gyfnewidiadau yn y dull o gario y'mlaen y cyfarfodydd hyn, sef i adael heibio gofyn cwestiynau i'r pregethwr, ac appwyntio un yn fwy neillduol na'r llall i draddodi pregeth, gan i fod fynychaf ddim llai na phump neu chwech yn pregethu, ond ni phenderfynwyd dim.

Appwyntiwyd y Cyfarfod Nadolig i fod yn Aberdar, ac i fod Mr. Evans, o Gellionen, a Mr. Higginson yn neillduol i fod yn pregethu yno. Y pwnc yw, *Baich cenadwri Crist—pa un ai i achub neu i iachau y daeth.* Os nad ydym yn ei eirio fel y dylid, bydded Mr. Jones cystal a'i ddodi yn iawn. Nid ydym ni yn sicr ein bod yn deall ei feddwl.

Wedi gorphen cyfarfod y boreu a chymeryd lluniaeth, cynhaliwyd cyfarfod dirprwyol yr *Education Fund,* sef i gynorthwyo dynion ieuainc i fyned i'r weinidogaeth yn Nghymru. Nis gall y *Committee* ddyweyd eu bod wedi cael cyflawn

foddlonrwydd, neu o leiaf nid ydynt wedi bod hyd yn hyn mor llwyddianus ag y dymunent. Nid oes dim yn lluddias dyn ieuanc a fyddo wedi derbyn cynhorthwy o'r drysorfa i fyned i Lloegr, os bydd yn meddwl y gwna yn well, ond yr ydym yn meddwl mai *courtesy* fyddai ynddo o leiaf i geisio caniatad y *Committee*, i addef ei gydnabyddiaeth iddynt, ac i osod o'u blaen y rheswm berodd iddo newid ei fwriad. Ar yr un pryd yr ydym yn rhwym o addef nad oes ond ychydig annogaeth i ddyn ieuanc yn bresenol aros yn Nghymru os gall wneyd y tro yn Lloegr, oni fydd yn meddu mwy o hunanymwadiad na'r cyffredin. Pa fodd y mae iddo fyw? Ofer yw iddo yn awr, yn enwedig yn y wlad, obeithio cynal ei hun trwy gadw ysgol, oblegid mae ysgolion y llywodraeth yn amlhau bob blwyddyn. Mae amgylchiadau yn awr yn llawer gwahanol i'r peth oeddynt flynyddau yn ol. Hyd yma mae ein gweinidogion wedi cynal eu hunain braidd yn ddigost i'w cynulleidfaoedd, trwy ymroddi i addysgiaeth yr ieuenctyd. Rhaid i'n cynulleidfaoedd o hyn allan naill ai bod heb weinidogion, neu ynte ddyfeisio rhyw gynllun i'w cynal. Nis gall pregethwr fyw ar y gwynt er fod awyr Cymru yn cael ei hystyried yn iachus. Mae y fath gynllun yn bosibl, ond y pwnc yw, a oes digon o fywyd, sel, ymdrech, cydweithrediad, yn ein plith ag a'n gwna ni fel enwad yn gyfartal i'r sefyllfa ag y byddwn ynddi cyn bo hir. Rhaid i'n gweinidogion gael gwell tâl. Gyda golwg ar roddi cymmorth o'r drysorfa i rai sydd yn awr yn y Coleg, mae'r *Committee* wedi gadael y mater i Mr. Hunter. Gyda golwg ar ddynion ieuainc yn myned i Loegr, ein cyngor ni i'n henwad yw, cadw y *Fund* i fyny, a chymeryd pethau fel y delont. Os aiff ambell i un i Loegr, dylem gofio ein bod ninau fel enwad yn dra dyledus i'r Saeson. Na wangalonwn i wneuthur daioni.

Wedi gwneuthur cyfiawnder â'r darpariadau oedd wedi cael eu gwneuthur gan y gynulleidfa ar gyfer dyeithriaid a phawb eraill, dechreuwyd cyfarfod y prydnawn gan Mr. G. Evans, a phregethodd Mr. Higginson, wrth gwrs yn Saesneg, oddiwrth Matt. xxii. 45, "Os yw Dafydd gan hyny yn ei alw ef yn Arglwydd, pa fodd y mae efe yn fab iddo?" Desgrifiodd y pregethwr gallineb Crist yn ateb ei elynion ac yn baeddu eu cyfrwysdra. Eglurodd beth sydd i'w ddeall wrth y gair Mab yn y Testament Newydd, a Mab y dyn yn Ezeciel; hefyd y rheswm paham y mabwysiadodd Crist y frawddeg. Yna tynodd wers ragorol oddiwrth y testyn, sef y niwed o gymeryd ein llywodraethu, fel yr Iuddewon, gan ragfarn, yn y fath fodd ag i gau ein llygaid yn erbyn y gwirionedd. Yn ddiweddaf, pregethodd Mr. Rees oddiwrth eiriau Paul yn Phil. i. 27, "Yn unig ymddygweh yn addas i Efengyl Crist." Dangosodd yn dra doniol pa fodd y mae i ni ymddwyn yn addas iddi, ac y dylem wneyd mwy o ymdrechiadau drosti mewn amrywiol ffyrdd, nid y lleiaf o honynt yw dwyn ein plant i fyny yn ein hegwyddorion crefyddol, yr hyn a esgeulusir yn fawr gan lawer o Undodiaid. Nid ydym yn gadael i'n plant gael eu ffordd mewn pethau tymhorol, megys i ddewis eu hysgol a'r cyffelyb, ond yn y peth mwyaf pwysfawr o ddim, sef crefydd, mae llawer yn gadael eu plant i wneyd fel y mynont.

Yr oedd y pregethu yn dda yn ddiau, ond nid allasem lai na meddwl na allasai dyeithr, nad oedd yn ein hadnabod, wybod neu gasglu mai Undodiaid oeddem, oblegid oddieithr un neu ddau sylw a wnawd, ni chyffyrddwyd â'r athrawiaethau pwysfawr sydd yn ein gwahanu ni oddiwrth bob enwad arall. Dichon i fod mwy o ysbryd dadleuga yr hen dadau ynom ni nac yn y dô ieuanc bresenol, oblegid ein bod yn meddwl y dylid yn wastad gadw o flaen ein gwrandawyr ein hegwyddorion Undodaidd, a'r rhesymau paham y gwrthodwn yr athrawiaethau poblogaidd am Dduw, Crist, maddeuant pechod, derbyniad y pechadur gyda Duw, &c. Nis gallwn lai na chredu fod yr hen bregethwyr yn rhagori arnom ni ar y pen hwn. Yn ol ein barn ni, un o brif ddybenion y weinidogaeth Undodaidd yw symud llygredigaethau Cristionogaeth—ei rhyddhau oddiwrthynt. Mae pesgethu moesoldeb a dyledswyddau yn dda ac angenrheidiol, ond yn y fath fodd ag i ddeilliaw oddiwrth ein hegwyddorion crefyddol, yn ol dull Paul yn ei Epistolau. Mae efe yn gyntaf yn dadleu, yn trafod egwyddorion, yn symud gau-syniadau, ac y mae y moesoldeb a'r dyledswyddau yn canlyn. Nid yw pregethwr Undodaidd yn myned yn ddiwerth, debygem ni, nes y byddo yn setlo i lawr yn bregethwr moesoldeb. Mae yn sicr o bregethu maes ei gynulleidfa yn y diwedd, oblegid i bwy les y gwna dynion, fel Undodiaid, wynebu colledion bydol, gwawd, ac enllib, os yw eu hegwyddorion crefyddol o mor lleied pwys y'ngolwg eu gweinidog, fel na wna byth son am danynt. Gwell a'r unwaith yw uno à'r Trindodiaid a nofiad gyda'r llif. Nid Socrates, nid Plato, nid Cicero, gynhyrfodd y byd, ond Paul yr Apostol, ac

craill o'i gyffelyb—dynion ag oeddynt mewn rhyfel gwastadol a gau-dduwiaeth, ac yn beiddio cymhell eu hegwyddorion crefyddol, er cymmaint y peryglon a'r rhagfarn yn eu herbyn. Rhodder i ddynion olwg glir ar Efengyl Crist yn ei chyflawn ysbrydolrwydd, ac ni bydd achos ofni na chant allan y moesoldeb sydd yn cydweddu a'i hegwyddorion. Ynfydrwydd yw rhoddi tramgwydd diachos i neb, er hyny mae yn bosibl i ni gymeryd ein llywodraethu yn rhy bell gan yr ofn hwn, a chadw ein hegwyddorion crefyddol ormod tu cefn rhag rhoddi tramgwydd. Pell ydym, er hyny, o feddwl fod yr ysbryd annheilwng hwn yn ymlusgo i'n plith. Nid oes neb enwad na phregethwyr wedi dangos mwy o wrolder crefyddol na'r Undodiaid, a gobeithio nad ydym yn dirywio. Nid yw ein gwaith eto wedi ei orphen, er fod y byd yn dynesu mwy atom.

Nid ydym yn foddlon diweddu heb gyflwyno ein diolchgarwch i'r brodyr yn yr Onenfawr, ac yn enwedig i'r gwragedd, am y darpariadau helaeth a wnaethant ar gyfer pawb a ddaethant yno, ac hefyd i bobl y gymydogaeth am eu parodrwydd i roddi pob cynhorthwy a allent. Dangosasant fod ganddynt barch i'r gynulleidfa fechan, er cymmaint y gwahaniaeth crefyddol.

Hanesion Eglwysig.

Archesgob Caerefrog.—Mae yn debyg i'r gwir barchedig hwn, pan yn talu ymweliad a Scotland, bregethu mewn pulpid Presbyteraidd, a thrwy hyny roddi tramgwydd i lawer o Uchel-eglwyswyr. Digon tebyg y cawn glywed cyn bo hir fod offeiriaid yr Eglwys Sefydledig a'r gweinidogion Anghydffurfiol yn cyfnewid pwlpidau. Dyna syndod fyddai gweled Undodwr yn pregethu yn Eglwys y plwyf a'r offeiriad o hono yntau yn cynal gwasanaeth yn y capel Undodaidd. Dywedai rhai fod y mil blynyddoedd wedi dechreu.

Doctor Dollinger.—Mae un yn ysgrifenu o Munich i'r *New York World* yn dyweyd iddo dalu ymweliad a'r Doctor, ac yn ystod yr ymddyddan iddynt fyned dros lawer o bethau mewn cyssylltiad â'r cyffroad presenol yn yr Eglwys Babaidd. "Darfu i'r ymddyddan ar y cyfan," medd efe, "fy ngwneyd yn drist. Yr argraff adawodd ar fy meddwl i yw fod y Doctor yn credu y bydd i'r cyffroad mae wedi osod ar droed gael ei lyncu i fyny gan resymoliaeth (*rationalism*) ac amheuaeth (*scepticism*). Gyda golwg ar Doctor Dollinger ei hunan, ni ryfeddwn i fawr i glywed ei fod wedi gwneyd ei ymostyngiad i'r Pab. Mae yn amlwg i fi ei fod yn anesmwyth, ac y mae yn ormod o resymwr i fethu gweled ei sefyllfa bresenol yn anghyson a gwan. Rhaid iddo fyned y'mlaen neu yn ol. Pe fyddai yn Luther, y'mlaen yr elai; ond y mae yn dirmygu Luther. Meddwl wyf fi ei fod yn fwy tebyg i Lacordaire."

Y Parch. C. Voysey.—Mae y gwr enwog hwn wedi *ffieso* ar St. George's Hall, fel lle addas i bregethu ynddo o hyn allan. Traddododd ei bregeth gyntaf Hydref 1. Yr oedd yn bresenol Sir W. R. Clayton, James Heywood, Esq., S. Courtland, Esq., Rev. J. D. Latouche, Charles Darwin, Esq., Charles Mackay, Esq,. Sir John Bowring, a Thomas Scott, Esq. Mae yn arferyd y Llyfr Gweddi Cyffredin, ond wedi ei buro, ac hyd yn nod ei ailgyfansoddi. Cymerodd fel ei destyn, o ran ei fod yn arfer gwneyd hyny meddai, Gal. vi. 9, "Eithr yn gwneuthur daioni na ddiffygiwn." Sylwodd y pregethwr ei fod yn gwrthwynebu yr athrawiaethau Trindodaidd, yn enwedig Cwymp dyn, yr Iawn, y Sacramentau, a damnedigaeth am gyfeiliornadau meddyliol. Yr oedd hefyd yn ardystio yn erbyn awdurdod y Beibl ac ymyraeth yr offeiriaid â gorchwylion bywyd. Ofn yw'r peiriant a pha un y mae'r offeiriadaeth "iawnffyddiol" yn gweithredu ar feddyliau dynion. Yr oedd hefyd yn ardystio yn erbyn yr athrawiaeth o ddwyfoldeb goruwch ddynol yr Iesu. Credo Cristionogion, meddai, yr hon a ddarlunia

ddyn fel abwydyn, a Duw fel ellyll creulon ac anrhugarog, yw cadair a mam Atheistiaeth yr oes. Ei gred ef yw ffydd yn Nuw yr hon sydd yn cynwys gobaith am fywyd trag'wyddol. Bywyd cywir ac ymddygiad rhinweddol yw yr unig foddion i gyrhaeddyd adnabyddiaeth o hono ac i symud y gorchudd oddiar y gogoniant Dwyfol. Dyma'r egwyddorion fydd iddo ef bregethu, yn ddiofn. Ni pheri na braw na gwobr iddo wyro oddiwrth y diwygiad crefyddol gweithgar mae wedi ei gynllunio.

Credo Athanasius.—Dywedir fod Episcopaliaid Iwerddon yn bwriadu taflu allan y brawddegau damniol o gredo Athanasius, yr hyn sydd yn dda gan rai Undodiaid ag ydynt yn mynychu addoliad y Stad-eglwys, ac er mwyn esmwythau eu cydwybodau crefyddol sydd mor fywiog, ydynt naill ai yn cau y *Common Prayer Book*, neu ynte yn gosod eu bysedd yn eu clustiau, pan fyddo yr offeiriad yn darllen y gredo anghristaidd hono.

Caerfyrddin.—Mae Uchel-eglwyswyr y dref hon mewn yspryd lled annymunol yn y dyddiau hyn am fod ymdrech yn cael eu wneyd i osod y *Lancasterian Schools* ar y *School Board*. Nis gallant feddwl heb deimlad dwys am osod treth newydd ar y dref, yr hon sydd eisioes yn talu trethi trymion. Mae'r dynion da hyn yn anghofio yr ymdrechiadau wnaethant i ddal i fyny y dreth eglwys hyd byth y gallent, a'u bod yn fwy na haner cynal eu hysgolion ag arian sydd yn dyfod allan o bocedi y bobl. Y gwir yw ofn sydd arnynt os y gosodir y *Lancasterian* ar y *School Board*, y bydd yn rhaid y'mhen ychydig amser iddynt hwythau osod eu hysgolion ar y bwrdd, oblegid ni fydd dynion yn foddlon rhoddi tal gwirfoddol atynt pan fyddont hefyd yn talu addysg-dreth. Mae'r offeiriaid yn gweled eu bod yn colli eu gafael ar addysgu y werin ieuanc, ac y mae y meddwl yn peri iddynt ofid.

Eglwys Rydd Gristionogol Birmingham.—Cynhaliodd yr Eglwys hon yn Fazeley-street, ei chylchwyl blynyddol, dydd Sul, Medi 10. Traddodwyd pregethau ar yr achlysur gan y Parch. H. W. Brosskey, Mr. M. Macfie, a Mr. J. R. Twinn. Prydnawn dydd Llun canlynol, cynhaliodd yr aelodau eu cyfarfod blynddol, Mr. B. Whitehouse yn y gadair. Darllenwyd y *report* gan Mr. Twinn, y *Secretary*. Ymddengys nad yw y gymdeithas wedi bod mor llwyddianus eleni o herwydd afiechyd anarferol yn y gymydogaeth, Nifer y bechgyn yn yr Ysgol Sul yw 231, y merched, 132. Bechgyn yn ysgol y nos, 50, merched, 44, llai o 112 nac yn y flwyddyn o'r blaen, a hyny yn benaf o herwydd llawer o afiechyd; ond mae'r aelodau yn obeithiol.

Darlington.—Dydd Llun, 16 Medi, cyfarfu dirprwyaeth o Gymdeithas Undodaidd Northumberland a Durham, yn cynwys y llywydd, Mr. Joseph Clepham, Mr. George Lucas, y Parch. W. Elliot o Stockton, a'r Parch. Thomas Heyland o South Shields, â nifer o Undodiaid yn nhref Darlington, ag a ddygwyd y'nghyd gan y Parch. Joseph Lee, i ystyried y pwnc a'r gwaith o sefydlu addoliad Undodaidd yno. Wedi hir ymddyddan, ffurfiwyd pwyllgor i'r dyben o hurio ystafell i gadw gwasanaeth ar y Sabboth, gan obeithio y llwydda yr achos fel ag yn y diwedd i adeiladu ty-cwrdd. Yr oedd yr areithiau a draddodwyd ar yr achlysur yn wresog ac adeiladol. Llwyddiant iddynt.

South Shields.—Ar 20 Medi, cynhaliwyd cyfarfod i osod y Parch. Thomas Leyland yn meddiant o'r pwlpid fel gweinidog—y cyntaf yn South Shields. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. J. Lee o Barnard Castle, a Mr. G. Lucas o Sunderland. Cafwyd pregethau adeiladol a chyfarfod gwresog.

CARTER-LANE MISSION, LLUNDAIN.—Medi 25, cedwid cyfarfod y genhadaeth hon yn Ystafelloedd y genhadaeth yn Friar-street, Doctor's Commons. Ei ddyben oedd i ffarwelio a'r Parch. John Taylor, yr hwn sydd yn myned yn weinidog i'r gynulleidfa yn Newport, Isle of Wight, ac i roesawi y Parch. R. H. Berryhill, B.A., yr hwn sydd yn ymgymeryd a'r sefyllfa o genhadwr i'r sefydliad. Yr oedd yn bresenol y Parchn. James Drummond, B.A., E. R. Grant, J. Haywood, T. H. Jerson, M.A., R. Miller, ac R. Spears; Meistriaid R. Bartram, E. H. Bush, C. L. Corkran, H. Jeffery, F. Nettleford, A. Preston, J. C. Preston, J. Richardson, W. F. Cowell Stepney, S. S. Tayler, J. M. Wade, George Webb, ac amryw eraill. Traddodwyd areithiau adeiladol a phwrpasol gan Jerson, Tayler, Grimstone, Taylor, Corkran, a Berryhill. Mr. John Warren, LL.B., y Trysorydd, yn y gadair.

NEWCASTLE-UPON-TYNE.—Hydref 1, dechreuodd y Parch. Alfred Payne, yn ddiweddar o Wilmslon, ei weinidogaeth yn Eglwys y Divine Unity yn y dref hon, yn lle y Parch. J. C. Street, yr hwn sydd wedi symud o Belfast.

TOPSHAM.—Nid yw wir fod y Parch. E. W. Lloyd, o'r Cwmbach, wedi derbyn yr alwad oddiwrth eglwysi Topsham a Gulliford. Byddai yn ddrwg genym golli Mr. Lloyd o Gymru. Mae ein gweinidogion wedi myned yn brin eisioes heb golli yn ychwaneg un sydd mor ddefnyddiol yn ein plith. Yr oeddem yn meddwl fod y brodyr yn Cwmbach yn rhy ddifrifol gyda'r achos i ymadael â'i gweinidog. Yn wir, nid yw crefydd o fawr fydd yn ngolwg neb na wnant ymdrech o'i phlaid. Mwy o ysbryd ymdrechgar yr Eglwys fechan hon sydd eisiau yn ein henwad.

BARNARD CASTLE: CYLCHWYL Y FREE CHRISTIAN CHURCH. — Y gylchwyl gyntaf wedi agoriad yr eglwys hon a gynhaliwyd ac a ddiweddwyd Medi 25. Mae yr adeilad yn un newydd a hardd. Costiodd 1,449p., ac y mae 1,284p. wedi eu talu. Arweinwyd y gwasanaeth gan Dr. Chalmers, M.B., o Lundain, a'r Parch W. Elliot o Stockton. Wedi y gwasanaeth yn y boreu cadwyd gwyl dê, pryd yr eisteddodd dros gant o amgylch y bwrdd. Wedi te, awd i'r capel yr hwn oedd yn llawn o wrandawyr. Gosodwyd Joseph Lupton, Esq., o Leeds, yn y gadair. Yr oedd yn bresenol y Parchn. J. Lee; W. Elliott, Stockton; Thomas Leyland, South Shields; a Meistriaid G. Lucas, Sunderland; J. H. Redman, Shrewsbury; W. A. Snaith, Darlington; Thomas Brunkett, Focett; J. Thompson, South Shields, &c., &c. Anerchwyd y gynulleidfa gan Elliot, Lucas, Leyland, a'r cadeirydd; a chanodd y *choir* amrywiol *anthems*. Mae'r gynulleidfa yn fyw ac mewn ysbryd gweithio.

DROMORE.—Mae y Parch. R. Millar o Walworth wedi symud i Dromore, gogledd Iwerddon. Mae y gynlleidfa hon yn un luosog a dylanwadol. Cadwyd hefyd gyfarfodydd neillduol yn Birmingham, Doncaster, Liverpool, Mosley, Rochdale, Dumferline (*Universalists*); Darlington, Trowbridge (cylchwyl sefydliad y Parch. S. Martin yn ei bedwaredd flwyddyn a deugain gyda y gynulleidfa), Sale yn Cheshire, Stalybridge, a Belfast.

GOFYNIADAU.

Carwn wybod ateb i'r gofyniad canlynol:—Un diwrnod yn ddiweddar pan yn yr ysgoldy, sylwais ar delpyn o ryw beth ar y ffenestr, gymmaint a marbl mawr. Dywedai rhai o'r *boys* taw "ymenyn y *witch*" oedd. P'am y cafodd yr enw hyny, a pha beth yw yr achos o hono? Pan ddarfu i ni gwrdd ag ef cawsom ei fod yn llawn o bowdwr tebyg i *snuff*. BILLY BOY.

Yn y Cei Newydd ychydig wythnosau yn ol gwelais beth hynod. Dau gylch o borfa mwy rhonc a mwy glas na'r borfa amgylchynol. Dywedwyd

wrthyf fod y Saeson yn eu galw yn *Fairy Rings*. Dymunaf wybod yr enw Cymreig, achos ac hanes yr enw y'nghyd ag eglurhad o'r peth ei hun, neu o'r *phenomenon* i ddefnyddio gair mawr. MORGAN MWYNFAWR.

TAN DYCHRYNLLYD YN CHICAGO, AMERICA.

RHYDD newyddiaduron New York [yr adroddiadau canlynol am y tân a'i ganlyniadau:—

"Nos Sabboth, Hydref 8fed, oddeutu wyth o'r gloch, aeth bachgen a breswyliai ar gongl heolydd Taylor ac Halstead, i'r ystabl i odro buwch oedd ganddo yno. Rhoes y fuwch ergyd i'r *lamp* a ddygasai y llanc gydag ef, y tân o ba un a gynneuodd swp o wellt rhydd oedd ger llaw; oddiwrth hwnw ymledodd at swp arall o wair oedd yn ymyl, ac i ddâs oedd oddi mewn. Ni fu yr holl adeilad ond ychydig fynydau cyn myned yn wenfflam, a chymerodd y gwynt a chwythai o'r gogledd-orllewin afael yn y fflamau, gan eu gwasgaru mewn ychydig amser dros y ddinas ardderchog, pob peth o fewn yr hon, o herwydd y sychder mawr a wnaethai yn ddiweddar, ydoedd yn syrthio yn aberth rhwydd ac uniongyrchol i'r elfen ddinystriol. Erbyn un ar ddeg, yr oedd y tân wedi llwyr ddifrodi pump *block* o dai, ystorfa fawr, a ffactri neu ddwy; ac erbyn deuddeg o'r gloch, yr oedd wedi cyrhaedd hyd heol Jackson, lle yr oedd rhanbarth eang yn parhau i fygu ar ol y tân a ddygwyddasai [y nos Wener blaenorol. Yma difawyd un bont yn llwyr; daliodd y tân hefyd ysgwner fawr oedd ar yr afon, a dinystriodd hi; neidiodd dros yr afon yn uniongyrchol at y rhan o'r ddinas oedd yn brif ganolbwynt masnach. Ymddangosai y dyfroedd, yn hytrach na bod yn atalfa i'r tân, yn fwy o gymhorth iddo, fel pe buasid yn tywallt olew arno. Yr oedd cynddaredd y fflamau yn berffaith aflywodraethus, a chyflymai y'mlaen, gan ddiystyru pob gwrthwynebiad. Oddeutu un o'r gloch, cynyddodd y gwynt. Llosgodd y tân Ystorfa Ddeheuol Michigan, a'r New Pacific Hotel oedd bron yn barod i gael ei hagor. Erbyn hyn, yr oedd deg *block* o dai yn lludw; deng mil o bobl wedi ymgynull y'nghyd, a chorphluoedd o'r dynion dewraf a mwyaf medrus yn ymladd yn ofer â'r tân. Ymledu yr oedd, er pob ymdrech i'w lethu a'i gael i lawr, hyrddid darnau llosgedig o goed fel barcut anferth dros y ddinas i'r llyn. Nis gallesid ei gyffelybu i ddim ond i ffwrnes ruadwy a fflamllyd.

Erbyn tri o'r gloch, yr oedd y fflamau wedi cyrhaedd y rhan bwysicaf o'r ddinas, ac yr oeddynt hyd yn nod wedi neidio dros y brif afon, gan ymledu mewn cyfeiriad gogleddol. Erbyn pedwar o'r gloch, yr oedd agos yr oll o'r dinaswyr allan yn yr heolydd yn nghymydogaeth y tân.

Ar hyn o bryd, medd newyddiadur sydd yn rhoddi yr hanes yn mhen diwrnod ar ol y trychineb, yr ydys yn gwybod fod o leiaf dair milldir o'r ddinas yn lludw—wedi eu llwyr ddinystrio. Y mae pob rhan bwysig mewn ystyr fasnachol yn ddyeithriad wedi eu llosgi; nid oes cymmaint ag un swyddfa newyddiadurol wedi ei gadael; yr un neuadd gyhoeddus, na lle o ddifyrwch ac adloniant o un math. Ysgubodd y tân swyddfeydd yr *Evening Post*, y *Zeitung*, y *Republican*, y *Mail*, y *Times*, a'r *Tribune* yn olynol—y naill ar ol y llall. Y mae y llythyrdy a'r holl brif westtai wedi myned. Llosgwyd oddeutu cant o *squares* cyfain o adeiladau masnachol ar y ty gogleddol, yr holl diriogaeth i'r dwyrain o heol Clark, ac ar y gogledd am ddwy filldir hyd barc Lincoln; ar y tu gorllewinol i'r afon nid ydyw y golled ond bechan mewn cymhariaeth—dim ond rhyw ddwsin o adeiladau wedi eu llosgi. Y mae yn ammhosibl dyweyd faint o fywydau a gollwyd. Y mae dros gan mil wedi eu gwneyd yn ddigartref. Y mae y cyfyngder mwyaf i'w ganfod ar bob llaw, ac ing a thrueni yn teyrnasu ar bob gwedd.

Taflwyd haner can mil o bersonau allan o waith, a dinystriwyd yr oll a feddai deng mil o fasnachwyr ar eu helw."

Llosgodd peth annhraethol o ŷd ag oedd wedi ei gludo i'r ddinas i'w ddanfon i bob man o'r byd lle byddai galw am dano—dim llai na miliwn a haner o fwsheli o wenith, yn agos yr un faint o haidd, ac oddeutu wyth can mil o fwsheli o geirch. Nid oes dim amheuaeth na effeithia hyn ar bris y dorth trwy yr wyth mis dyfodol.

Darfu hefyd i amryw eglwysi o bob enwad fyned ar dân. Yn eu plith eglwys a thy byw y Parch. Robert Collier, y gweinidog Undodaidd yno, yr hwn fu yn y wlad hon yr hâf diweddaf. Yr oedd yn eglwys hollol newydd, ac wedi costi yn agos i bymtheg mil o bunnau! Cafodd Mr. Collier a'i deulu drafel nid bychan i safio eu bywydau. Yr ydym yn y wlad hon wedi gosod *subscription* ar droed i gynorthwyo ein brodyr yn yr amgylchiad cyfyng ag y maent ynddo, a gobeithio ydym y gwneir casgliad er eu mwyn yn ein holl eglwysi. Byddai hefyd ddillad a blancedi yn dderbyniol iawn, oblegid mae ein brodyr Undodaidd wedi colli pob peth a feddent, ac yn byw yn awr ar elusen. Os bydd neb o ddarllenwyr teimladwy yr YMOFYNYDD yn dewis cynorthwyo, gwnelent i fyny bac, a danfonent ef i *Mrs. T. E. Paget (for the Rev. Robert Collier, Chicago), Hope-street Schools, Caledonian-street, Liverpool, E.* Mae perchenogion y *Cunard Steamers* wedi addaw cario pob peth a ddanfonir, fel dillad a blancedi, yn ddidâl, ac y mae'r American Consul yn dyweyd y derbynir y pethau yn America yn rhydd o bob *duty*. Mae y golygydd wedi danfon pac eisioes. Bydd Mr. Collier yn ddiolchgar iawn i bawb am eu cynhorthwy, a gellir ymddibynu y bydd iddo eu rhanu rhwng ei gyfeillion a phawb sydd yn sefyll mewn angen, ac yn debyg o ddioddef llawer oddiwrth yr oerfel y gauaf dyfodol.

Bu Farw.

Mr. John Jones, Talgarreg (gynt o Glanrhyd, Llanarth), Gorphenaf 31, yn 78 oed. Claddwyd ef y Mercher canlynol yn Pantydefaid. Gweinyddodd y Parch. T. Thomas, gweinidog y lle, ar yr achlysur.

Mrs. Eleanor Evans, gwraig Mr. Evan Evans, Gwarllwynoidos, Llandyssul, Awst 10, yn 70 oed. Claddwyd hi y Sadwrn canlynol ym mynwent Pantydefaid. Pregethodd y Parch. T. Thomas ar yr achlysur.

Frances Ann, maban Mr. Thomas Jones, Merchant, Llandyssul, Awst 20, yn un wythnos ar ddeg oed. Claddwyd hi Awst 23, yn Pantydefaid. Gweinyddodd y Parch. T. Thomas ar yr achlysur.

Thos. Thomas, Pantmoch, Llandyssul, yn 71 oed, Hydref 1. Bu yn glaf er nid yn boenus iawn am flynyddau. Claddwyd ef y dydd Mawrth canlynol yn Pantydefaid, a chyflawnwyd y gwasanaeth arferol gan y gweinidog, T. Thomas. Gadawodd weddw a thri o blant i alaru eu colled ar ei ol.

Evan Evans, Maltster, Abercerddin, Llandyssul, Hydref 9, yn 47 oed. Yr oedd yr ymadawedig yn cael ei adwaen a'i barchu fel dyn gonest a diddichell trwy'r wlad yn gyffredinol. Yr oedd yn gantor rhagorol ac wedi trysori yn ei gof amryw ddarnau prydyddol o waith prif feirdd Cymru. Undodwr oedd yn ei farn grefyddol. Claddwyd ef y dydd Iau canlynol yn Pantydefaid. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth angladdol gan y Parchedigion David Evans, B.A., W. Thomas, M.A., John Davies, a T. Thomas.

Mr. Timothy Davies, neu yn fwy adnabyddus wrth yr enw Dr. Davies, Blaenydernyn, Pencarreg, Awst 6, yn 81 oed. Yr oedd Mr. Davies yn enedigol o ardal Cilcenin, ond nid yw enw'r fan yn adnabyddus i'r ysgrifenydd. Bu farw ei fam pan oedd ef yn ieuanc iawn; a phan oddeutu saith mlwydd oed mabwysiadwyd ef gan ei ewythr, brawd ei fam, sef Dr. Griffiths, Waun-Nani, ger

Llanwnen, Ceredigion, dan ofal caredig yr hwn y dygwyd ef i fyny gan gael y manteision goreu o fewn cyrhaedd yn y gymydogaeth yn yr amser hwnw. Wedi treulio rhai blynyddau yn yr ysgolion cymydogaethol yn Cribin a Llanwnen, anfonwyd ef i Gaerfyrddin; ac wedi gorphen ei addysg ragbaratoawl yno, dychwelodd at ei ewythr yn Waun-Nani i astudio physigwriaeth. Y'mhen rhyw amser symudodd ei ewythr o Waun-Nani i Bensarnfach, a'i nai gydag ef i'w gynorthwyo yn ngwaith y fferm ac yn nyledswyddau'r *Surgery*. Ar ol marwolaeth ei ewythr aeth Mr. Timothy Davies i'r lan i Lundain, ac wedi treulio'r amser arferol yn yr *Hospital*, a chael ei *certificate*, dychwelodd at ei frawd i Bensarnfach i ddilyn physigwriaeth fel olynydd i'w ewythr. Yn y flwyddyn 1821, efe a ymbriododd a Miss Margaret Jenkins, Clyndu, Llanwenog, a buont yn byw am beth amser yn Crugymaen. Oddiyno symudasant i Felindre, gerllaw Talsarn ar lan Ayron, lle y gwnaeth Mr. Davies ei hun yn ddefnyddiol fel meddyg, ac yr enillodd iddo ei hun barch cyffredinol. Wedi prynu Blaenydernyn symudodd yno i fyw, oddeutu pymtheg mlynedd ar hugain yn ol, a dewiswyd ef yn un o feddygon Undeb Llanbedr; gwasanaethodd ei swydd yn ffyddlon am ddwy flynedd ar hugain, gan roddi boddlonrwydd i bawb, a chael iddo ei hun gymeradwyaeth nid bychan: prawf o hyn yw i awdurdodau yr Undeb roddi iddo bymtheg punt y flwyddyn oddiar yr amser y rhoddodd ei swydd i fyny hyd ei farwolaeth. Ni bu neb erioed yn fwy diwyd ac ymdrechgar yn ei alwad na Mr. Davies; yr oedd yn barod ddydd a nos, ac, oddieithr pan feddyliau fod bywyd y claf mewn perygl, cyflawnai ei siwrneion ar droed fynychaf. Yr oedd wedi cael ei ddwyn i fyny dan yr hen oruchwyliaeth, pan yr oedd traed a choesau o ryw wasanaeth i ddyn, ac felly yr oedd yn un o'r cerddedwyr goreu yn ei oes.

Bu fyw a bu farw yn fawr ei glod gan gylch helaeth o gydnabod. Yr oedd yn un o'r mwyaf difrycheulyd ei fuchedd yn y wlad, bob amser yn ddidderbyn wyneb, yn meddu mwy o benderfyniad meddwl na'r cyffredin, ac yn un o'r parottaf i wneuthur cymwynas. Yr oedd yn ffyddlon i'w addewidion—os unwaith yr addawai, byddai yn sicr o gyflawni. O ran ei farn grefyddol, Undodwr oedd, a Rhyddfrydwr trwyadl mewn *politics*. Medrai ymresymu yn dda, a bu mewn llawer dadl boeth; ond er methu cytuno ni fynwesai un teimlad digofus tuag at ei wrthwynebwyr yn ol llaw. Caniattae i eraill yr un rhyddid i farnu drostynt eu hunain ag a fynai gael iddo ei hunan.

Bu iddo bedwar o blant, tri o ba rai sydd yn awr yn fyw, sef Mr. John Davies, Blaenydernyn, Mrs. Hannah Evans, Pantyfen, Pencarreg, a Mrs. Mary Evans, Tower Hill. Y pedwerydd, sef Mr. David Daniel Davies, a fu farw Mawrth 3, 1858, yn 27 oed. Yr olaf a gafodd y manteision goreu, ac a ddygwyd i fyny yn feddyg; a thros yr amser byr y bu yn dilyn ei alwedigaeth yn Llanbedr, dywedir iddo fod yn llwyddianus dros ben, a digon tebyg, pe buasai wedi byw hyd yn bresenol, y buasai wedi enill iddo ei hun enwogrwydd mawr. Gadawodd weddw ac un mab i alaru eu colled ar ei ol.

Claddwyd Mr. Timothy Davies y dydd Mercher canlynol ym mynwent Pencarreg. Daeth tyrfa luosog y'nghyd ddydd ei angladd; a chyn cychwyn, pregethodd y Parch. T. Thomas, Capelygroes, oddiwrth Marc xii. 32, 33, geiriau ag oedd yr ymadawedig wedi orchymyn i fod yn destyn ei bregeth angladdol. Ymgysured ei weddw, a'i blant, a'i wyrion, ar bwys y ffaith o fod bywyd ac anllygredigaeth wedi cael eu dwyn i oleuni yn yr Efengyl. Bendith a thangnefedd y Nefoedd fyddo bob amser yn aros arnynt.

GOHEBYDD.

GWELLIANT GWALLAU.

Yn tud. 214, yn lle *Glyn-llech-isaf*, darllener *Glyn-llech-uwchaf*.

"Garddwriaeth y Bwthyn."—Adran 7, yn lle *gwanwch*, darllener *gwauwch* fotras gwellt. Yn lle *polgai*, darllener *polgae*. Adran 17, yn lle "ffos ddwy *fodfedd*, darllener "ffos ddwy *droedfedd*. Adran 19, yn lle *peri*, darllener "*pery* effeithiau da." Yn lle "ychydig *gartau*," darllener "ychydig *gantau* o galch." Adran 21, yn lle "*rhwnllys*," darllener "*rheonllys*." Yn lle "tir *trymedig*," darllener "tir *triniedig*." Adran 48, yn lle *codwch*, darllener "*cedwch* hwy rhag eu dinystrio." Adran 57, yn lle "ewin *gartheg*," darllener "ewin *garllegyn*." Adran 54, yn lle "tir cryf *gwaedlyd*," darllener "tir cryf *tywodlyd*."

ARGRAFFWYD GAN C. & D. JONES, LLYFRWERTHWYR, CAERFYRDDIN.